Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru

Strategaeth Ddrafft ar gyfer Cymorth

Haf 2004

Un o bartnerion

DFID Department for International Development

Cyfanfyd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynnwys

Cynnwys

Acronymau a Byrfoddau a Ddefnyddir

Cyflwyniad **1**

Y Cyd-destun **1**

Elfennau Allweddol o'r Broses yng Nghymru **2**

Llinell Amser **3**

Y Weledigaeth Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy **4**

Yr Hyn y Gall GCE ei Gyflawni **25**

ATODIAD CAMAU GWEITHREDU

Gweledigaethau a Chamau Gweithredu **34**

Cofrestr Camau Gweithredu a Mentrau GDd Cymru **45**

Cofrestr Camau Gweithredu a Mentrau GO Cymru **46**

Cofrestr Camau Gweithredu a Mentrau Sir Benfro **47**

Cofrestr Camau Gweithredu a Mentrau Sir Gaerfyrddin **48**

ATODIADAU

Ffurflen ar gyfer Adborth a Chamau Gweithredu **50**

Acronymau a Byrfoddau Ddefnyddir yn y Ddogfen

A21LI	Agenda 21 Lleol
AALI	Awdurdod Addysg Lleol
ABCh	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
ABChI	Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Iechyd
ACCAC	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
ADC	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy
ADCaDF	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
ADF	Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang
ADFaDC	Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang a Datblygu Cynaliadwy
Add. Dat.	Addysg Datblygu
ALI	Awdurdod Lleol
CA	Corff Anllywodraethol
CA..1/2/3/4/	Cyfnod Allweddol (yn y Cwricwlwm Cenedlaethol)
CAB	Canolfan Addysg y Byd
CACC	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
CAD	Canolfan Addysg Datblygu (‘CAB’, ‘PEDEC’ a ‘Global Connections’)
CAG	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
CCAC	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CEWC	Cyngor Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang Cymru
CP	Y Cyngor Prydeinig
CPC Bangor	Coleg Prifysgol Cymru, Bangor
CS	Cyngor Sir
CSA	Cynllun Strategol Addysg
CTA	Canolfan Technoleg Amgen
CYC	Cyngor y Celfyddydau
Cyfanfyd	Cymdeithas Addysg Datblygiad Cymru
DC	Datblygu Cynaliadwy
DFID	Adran Datblygu Rhyngwladol
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
Estyn	Prif Arolygwr Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
GCaD Cymru	Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru
GCE	Galluogi Cymorth Effeithiol
GDF	Gweithgor Dinasyddiaeth Fyd-eang
GDTG	Grŵp Datblygu Technoleg Ganolradd
GEST	Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant
GYC	Gwobr Ysgolion Cynaliadwy
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon
HMS	Hyfforddiant Mewn Swydd
PEDEC	Canolfan Addysg Amgylchedd ac Addysg Datblygiad Powys
RhCA	Rhwydwaith Colegau Agored
RhHRhC	Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru
UCET Cymru	Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon
UNICEF	Cronfa Ryngwladol Argyfwng Plant y Cenhedloedd Unedig
WWF	Cronfa Natur Fyd-eang
WYFSD	Fforwm Datblygu Cynaliadwy Ieuenctid Cymru

CYFLWYNIAD

Mae Galluogi Cymorth Effeithiol yn fenter ledled y DU a ddatblygwyd gan DFID mewn ymateb i'r angen am ddull mwy systematig ar gyfer mynd ar drywydd dinasyddiaeth fyd-eang.

Nid rhywbeth newydd mohono**. Mae** a wnelo ag adnabod a hybu'r mecanweithiau mwyaf effeithiol a fydd o gymorth i sicrhau 'dinasyddiaeth fyd-eang' trwy ychwanegu at yr hyn a gyflawnwyd eisoes.

Yng Nghymru mae'r broses yn cael ei rheoli gan Cyfanfyd (Cymdeithas Addysg Datblygu Cymru) mewn ymgynghoriad â Gweithgor Dinasyddiaeth Fyd-eang Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), yr Arolygiaeth Ysgolion (Estyn), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), y Cyngor Prydeinig a'r Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID).

Unwaith y bydd y strategaeth wedi'i llunio (haf 2004) mae DFID wedi ymrwymo i roi cymorth am 5 mlynedd arall i weithredu GCE.

Mae'r strategaeth ddrafft hon yn ganlyniad i broses ymgynghori helaeth â budd-ddeiliaid er mwyn datblygu fframwaith a fydd yn cynnig cymorth i addysgwyr ac athrawon, er mwyn eu galluogi hwy a'u disgyblion i ddylanwadu ar, creu a chynnal dyfodol teg a chynaliadwy i Gymru a'r byd ehangach.

Mae'r ddogfen strategaeth gyffredinol hon yn canolbwyntio ar y materion sy'n gysylltiedig â'r isadeiledd a gynlluniwyd yn genedlaethol ac sy'n hanfodol i gyflawni'r amcanion a adnabuwyd. Mae'r Atodiad Camau Gweithredu'n manylu ar y cyfoeth o waith ychwanegol/cynorthwyol sy'n deillio o fudiadau a sefydliadau, ysgolion ac unigolion, ac sy'n hanfodol i gyflawni'r strategaeth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn eich ymateb byddai o gymorth pe gallech ystyried y cwestiynau canlynol:

A oes gennych awgrymiadau eraill o ran gweithgareddau 'cymorth'?

Ym mha ffyrdd y bydd hyn o gymorth i chi yn eich gwaith?

A ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau posib gyda'r dull arfaethedig?

Y CYD-DESTUN

Cyn belled ag y mae'r rhanbarthau GCE ledled y DU yn y cwestiwn, mae Cymru'n unigryw yn yr ystyr bod ganddi Gynulliad y mae'n rhwym arno gyflawni dyletswydd statudol trwy hyrwyddo a mynd ar drywydd datblygu cynaliadwy, yn ogystal â'i Hawdurdod Cwricwlwm a'i Harolygiaeth Ysgolion ei hun (ACCAC ac Estyn yn y drefn honno). Mae'r ddau ffactor hwn ynddynt eu hunain yn rhoi cryn dipyn o gefnogaeth wleidyddol i'r broses GCE yng Nghymru, ac mae hyn yn ei dro'n golygu bod cyfle unigryw yn yr hirdymor i brif-ffrydio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCaDF) mewn polisïau addysg.

Wrth gyflawni ei dyletswydd statudol, yn ddiweddar mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi adolygu ei Chynllun Datblygu Cynaliadwy ac mae wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â hwn. O ystyried y berthynas agos rhwng Dinasyddiaeth Fyd-eang a Datblygu Cynaliadwy, mae'r Cynllun Gweithredu Diwygiedig yn nodi'r angen i ddod â'r ddau fater ynghyd ac mae'n cynnig y canlynol:

Gwneud datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd ofynnol ar bolisïau ysgol-gyfan pob ysgol.

Ymrwymo i gynnwys datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn yr adolygiad o'r gofynion ar gyfer cynlluniau strategol addysg (CSA) a Chynlluniau Gwella Ysgolion yn y dyfodol.

Adolygu lle datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm fel rhan o adolygiad presennol ACCAC o'r Cwricwlwm.

Cyflwyno datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang fel modiwl mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol a chyrsiau sefydlu ar gyfer athrawon a datblygu hyfforddiant penodol ym maes Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Yn unol â hyn, cafodd Gweithgor Dinasyddiaeth Fyd-eang a Phanel Ymgynghorol Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad eu cyfuno'n ddiweddar ac maent wedi ymgymryd â'r swyddogaeth o lywio GCE yng Nghymru.

Am y rhesymau a nodir uchod, mae'r broses GCE, er ei bod yn ymwneud yn bennaf ag Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang, wedi adlewyrchu dymuniadau budd-ddeiliaid i gydnabod bod y term yn gyfystyr ag ADC pan ddefnyddir yr ail gysyniad yn ei ystyr ehangaf.

O ganlyniad, mae nifer o'r sylwadau a wnaed yn ystod y broses GCE yn berthnasol i ADF ac ADC, ond mae angen gwneud llawer mwy o waith er mwyn cynnwys safbwyntiau a gwybodaeth aelodau'r cyn Banel Ymgynghorol ADC a budd-ddeiliaid eraill.

Er mwyn gweithredu'r weledigaeth ehangach hon yn llawn, serch hynny, bydd yn rhaid ceisio nawdd pellach yn ychwanegol at arian sydd ar gael trwy GCE.

ELFENNAU ALLWEDDOL O'R BROSES YNG NGHYMRU

Cyfarfodydd ac Ymgynghoriadau â budd-ddeiliaid
Cafwyd nifer o gyfarfodydd ac ymgynghoriadau ag Awdurdodau Lleol, Ymgynghorwyr, Cyrff Anllywodraethol (CA), ysgolion a darparwyr addysg athrawon, Panel Ymgynghorol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad a chynrychiolwyr Estyn ac ACCAC. Yn ganolbwynt i nifer o'r ymgynghoriadau cafwyd 'ymarfer llunio gweledigaeth', a deilliannau'r ymarfer hwn sydd yn sail i fframwaith y strategaeth yn y pen draw.

Casglu gwybodaeth gychwynnol
Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o Gynlluniau Strategol Addysg presennol, canlyniadau'r holiadur ar gyfer ysgolion ac adolygiad o weithgareddau ADCaDF presennol.

Fforymau Rhanbarthol
Gan fod y gweithgarwch ym maes ADFacADC ledled Cymru'n glytiog, teimlwyd ei bod yn briodol gweithio yn yr ardaloedd y mae mwy o weithgarwch ynddynt gan sefydlu nifer o fforymau lleol, neu Fforymau Rhanbarthol. Mae pedwar Fforwm Rhanbarthol gwahanol wedi cael eu sefydlu yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Gogledd Orllewin Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru. Er bod pob un yn wahanol, mae eu haelodau ar y cyfan yn cynnwys Athrawon, Prifathrawon, Ymgynghorwyr ac Arolygwyr, Swyddogion Llywodraeth leol, Academyddion, a chynrychiolwyr amryw CA ac Asiantaethau Cenedlaethol.

Ers eu sefydlu mae pob un ohonynt wedi:

- cael cyfle i wneud sylwadau ar a newid y Weledigaeth sy'n cael ei llunio gan y broses
- cyfrannu gwybodaeth a oedd yn sail i'r arolwg cychwynnol
- wedi dechrau trefnu'r datganiadau o fewn y Weledigaeth yn ôl y flaenoriaeth a roddir
- ac wedi dechrau mynd ati ar wahân i ddilyn eu rhaglenni eu hunain o ran adnabod camau gweithredu neu feysydd gweithgarwch newydd

Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad yn dynodi'n eglur bod angen gwella mynediad at adnoddau a hyrwyddo'r arfer o ddysgu ar y cyd. Cynigir felly y dylai GCE ganolbwyntio ar atgyfnerthu a rhoi cymorth i'r rhwydweithiau arbrofol a hwyluso'r broses o sefydlu rhwydweithiau newydd mewn ardaloedd eraill (neu roi cymorth i ehangu cylch gorchwyl y rhai presennol).

AMSERLEN SY'N DISGRIFIO DATBLYGIAD STRATEGOL DINASYDDIAETH FYD-EANG YNG NGHYMRU



Y WELEDIGAETH ADDYSG AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG AC ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY

Lluniwyd y weledigaeth fel asgwrn cefn y Strategaeth ac mewn ymateb i'r cwestiwn: *Beth fydd ysgolion yn ei wneud ymhen 5 mlynedd o ganlyniad i Strategaeth Dinasyddiaeth Fyd-eang?*

Mae'r ymateb yn cynnwys 20 datganiad gwahanol a'r cyfuniad o'r rhain i gyd yw'r Weledigaeth.

Fe ddechreuwyd datblygu'r gwahanol ddatganiadau yn un o gyfarfodydd y Gweithgor Dinasyddiaeth Fyd-eang ac maent wedi cael eu diwygio a'u gwella gan nifer o fudd-ddeiliaid ers hynny sy'n cynnwys Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru, y rhai a fynychodd CCB Global Connections, Cyngor Gweithredol Cyfanfyd a phob un o'r pedwar Fforwm Rhanbarthol.

Allwedd i'r Adran ar y Weledigaeth a Chamau Gweithredu

Sector:

enw'r gynulleidfa y mae'r datganiadau canlynol wedi'u bwriadu ar eu cyfer

Datganiad 1: Geiriad y datganiad ei hun	**Blaenoriaeth:** Lefel y flaenoriaeth gan y Fforymau

Eglurhad: disgrifiad mwy manwl o'r datganiad, yr hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd, a'r rheswm yr ystyrid ei fod yn bwysig.

Y Sefyllfa yn 2004: Disgrifiad cryno o'r sefyllfa bresennol fel y caiff ei hystyried ar adeg ysgrifennu'r strategaeth. Bydd y manylyn hwn, y mae a wnelo'n benodol â'r datganiad uchod, yn ychwanegu at yr wybodaeth gychwynnol a gasglwyd eisoes, sy'n ymwneud yn fwy â phroffil ehangach ADF ac ADC a'r ymwybyddiaeth ohonynt o fewn ysgolion.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Rhestr o bwyntiau sy'n nodi'n fras y camau gweithredu y gwŷr yr awduron eu bod eisoes yn cyfrannu at gyflawni'r amcan yn y datganiad. Mae hon yn rhestr o'r camau a gymerwyd fel rhan o'r broses GCE, neu a gychwynnwyd gan y **sector statudol** **Ceir mwy o gamau gweithredu a phrosiectau unigol sy'n mynd ar drywydd y weledigaeth yn yr Atodiad Camau Gweithredu**	Rhestr o'r sefydliadau neu bartneriaethau sydd yn gysylltiedig â chyflwyno'r camau gweithredu	Amcangyfrif o'r raddfa amser ar gyfer y camau gweithredu
Camau Gweithredu: Newydd • Gan ddefnyddio'r un meini prawf â'r uchod, manylion unrhyw gamau gweithredu newydd y mae'r awduron yn ymwybodol ohonynt.		

Camau Gweithredu: Dymunol

- Yma mae'r awduron wedi cynnwys nifer o gamau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcan yn y datganiad ond nad ydynt wedi cael eu hadnabod hyd yma fel camau gweithredu newydd neu bresennol.

Dylai unrhyw un sydd am ychwanegu camau gweithredu perthnasol at yr adran ganlynol neu'r Atodiad Camau Gweithredu gwblhau a dychwelyd ffurflen – gweler atodiad 1

Sector: Polisïau Lleol

Datganiad 1:	**Blaenoriaeth:**
Bydd **Cynlluniau Strategol Addysg** pob Awdurdod Lleol yn cynnwys manylion eu gwaith i hyrwyddo Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADF) ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC).	**UCHEL**

Eglurhad: Mae'n ofynnol i Adran Addysg pob awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Addysg (CSA), sy'n disgrifio sut y byddant yn codi safonau ac yn gwella perfformiad ysgolion. Maent yn gyfle i awdurdodau lleol nodi sut y gallant gydweithio â'u hysgolion a'u cymunedau ehangach er mwyn gwella addysg. Bydd sicrhau bod CSA a'r Cynlluniau Atodol cyfamserol yn nodi sut y bwriedir rhoi cymorth i ADCaDF yn chwarae rhan bwysig wrth brif-ffrydio ADCaDF.

Y Sefyllfa yn 2004: Datgelodd yr arolwg o CSA (2002-2005) bod ychydig o awdurdodau'n dechrau cynnwys ADCaDF yn eu CSA. Mae Awdurdodau Lleol y mae eu Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy neu A21Ll yn cael cymorth gan eu hadrannau addysg wedi mynd ymhellach o ran cynnwys ADC yn y CSA.
Mae pob un o'r awdurdodau, naill ai o fewn eu CSA neu mewn canllawiau atodol, wedi mynd i'r afael â'u gofynion statudol o safbwynt Cydraddoldeb Hil. Er bod gwahaniaethau mawr rhwng y Rhaglen Cydraddoldeb Hil ac ADCaDF mae cryn dipyn o orgyffwrdd yn dal i fod, sydd fwyaf amlwg yng nghyswllt yr ymrwymiad i hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth diwylliannol.
Mae camau gweithredu'n ymwneud â hyrwyddo sgiliau meddwl yn feirniadol a phrosesau democrataidd i'w gweld yn oddeutu hanner y CSA. Mae cynnydd hefyd yn y duedd o ddatblygu ysgolion fel canolfannau dysgu cymunedol.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Adolygiad o CSA (2002-2005) wedi'i wneud er mwyn adnabod cyfleoedd presennol	GCE	Yn gynnar yn 2004
• Adroddiad wedi'i gomisiynu er mwyn archwilio'r cysylltiadau rhwng ADCaDF a Chydraddoldeb Hil	Cyfanfyd	Haf 04
Camau Gweithredu: Newydd		
• Mae CCAC yn bwriadu argymell cynnwys ADCaDF mewn canllawiau atodol	CCAC	
• Mae cynnig o fewn Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad i: *"Ymrwymo i gynnwys datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wrth adolygu gofynion ar gyfer CSA a Chynlluniau Gwella Ysgolion yn y dyfodol…."*	Llyw. y Cynulliad	2004
Camau Gweithredu: Dymunol		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		

Datganiad 2:	**Blaenoriaeth:**
Mae pob ysgol yn cydnabod pwysigrwydd ADFacADC ac yn eu hystyried yn rhan werthfawr o **hawl addysgol** pob plentyn**.**	**CANOLIG**

Eglurhad: Mae angen sicrhau bod cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o fewn ysgolion o'r rôl y gall ADFacADC ei chwarae wrth ddarparu'r addysg lawn a chytbwys y mae gan blentyn hawl sylfaenol iddi. Heb y gydnabyddiaeth hon efallai y bydd ysgolion yn addysgu dinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy am eu bod yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny ac am y rheswm hwnnw'n unig, yn hytrach nag am eu bod yn dymuno gwneud hynny.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae nifer o enghreifftiau da ledled Cymru o ysgolion sy'n cydnabod pwysigrwydd ADFacADC ac yn dilyn y trywydd hwn gyda brwdfrydedd, ond am bob ysgol o'r fath mae llawer mwy o ysgolion nad ydynt yn mynd ar drywydd 'y gyfrinach orau ym myd addysg'.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
Gweler yr Atodiad Camau Gweithredu a'r Gofrestr Ranbarthol		
Camau Gweithredu: Newydd		
• Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang: Map ar gyfer Cynllunwyr y Cwricwlwm (yn cynnwys cysylltiadau ag ADC a Chydraddoldeb Hil) Fersiwn Uwchradd	Llyw. Y Cynulliad: GDF	2004
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Dogfen mapio'r Cwricwlwm o safbwynt ADCaDF: cynradd	Llyw. y Cynulliad	
• *"Adolygu lle ADFaDC yn y cwricwlwm fel rhan o adlygiad presennol ACCAC o'r cwricwlwm"* (Fersiwn Ddrafft o'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy)		

Datganiad 3:	**Blaenoriaeth:**
Mae ADFacADC yn cael eu hystyried yn **werthfawr** gan ysgolion oherwydd y cyfraniad tuag at ddatblygiad addysgol, personol a chymdeithasol.	**CANOLIG**

Eglurhad: Tra bod a wnelo datganiad 2 â deall pwysigrwydd, mae datganiad 3 yn ymwneud â sicrhau bod athrawon yn deall sut y gellir defnyddio ADFacADC i ddarparu addysg lawn a chytbwys. Mae a wnelo hyn â'r gwahaniaeth trwch blewyn rhwng bod yn awyddus i ddefnyddio ADFacADC s deall sut y gellir eu defnyddio.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae nifer o enghreifftiau da ledled Cymru o ysgolion sy'n cydnabod pwysigrwydd ADFacADC ac yn dilyn y trywydd hwn gyda brwdfrydedd, ond am bob ysgol o'r fath mae llawer mwy o ysgolion nad ydynt yn deall 'y gyfrinach orau ym myd addysg' ac felly nid oes gweithgarwch i'w weld.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Rhwydwaith ABCh Cymru-gyfan. Rhwydwaith o athrawon ac ymgynghorwyr	Grŵp Llywio Rhwydwaith ABCh	Yn barhaus
Camau Gweithredu: Newydd	I'W CADARNHAU	
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Hyrwyddo a rhoi cymorth i'r broses o rannu arferion da. Datblygu'r wefan ADCaDF ymhellach er mwyn galluogi ysgolion i rannu eu gwaith/prosiectau eu hunain. www.esd-wales.org.uk	Pwyllgor Ymgynghorol ADCaDF/GCE	Yn barhaus

Datganiad 4:	**Blaenoriaeth:**
Bydd pob ysgol yn darparu digwyddiadau a gweithgareddau ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer y gymuned ehangach er mwyn galluogi disgyblion a'u teuluoedd i gyfranogi o **ddysgu ar y cyd**.	**ISEL**

Eglurhad: Annog ysgolion i edrych y tu hwnt i'w darpariaeth eu hunain ac ehangu'r profiad dysgu gan weithio mewn partneriaeth â mudiadau a sefydliadau cymunedol.

Y Sefyllfa yn 2004: Ychydig o ddigwyddiadau neu weithgareddau a drefnir ar hyn o bryd gan ysgolion sy'n chwarae rhan weithredol wrth gynnwys y gymuned ehangach neu hwyluso cyfleoedd dysgu ar gyfer teuluoedd. Mae awdurdodau lleol yn cydnabod y bydd ysgolion yn chwarae rôl bwysicach o fewn eu cymunedau ac maent felly'n paratoi i ddarparu'r cymorth angenrheidiol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd. Mae Ysgolion Bro (Cylchlythyr LICC Rhif: 34/2003) yn ysgolion sydd *"yn darparu amrediad o wasanaethau a gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol ... ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach"* a thrwy hynny maent *"yn rhoi cymorth i adeiladu cymunedau cryfion a gweithgar y mae pobl o bob hil a chefndir yn cael eu gwerthfawrogi ynddynt ac y gall y sector gwirfoddol ffynnu ynddynt".*

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Menter ar y cyd rhwng Cyngor Ieuenctid Cymru a Cyfanfyd i chwilio am gyfleoedd ar gyfer addysg datblygu yn y sector anffurfiol. Rhwydwaith Gwaith Ieuenctid Byd-eang	Cyngor Ieuenctid Cymru, Cyfanfyd	2004
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Mwy o nawdd prosiectau ar gael i roi cymorth i brosiectau dysgu ar y cyd unigol arbrofol		CGâPh
• Mae angen adnabod, creu a hyrwyddo mwy o adnoddau er mwyn ymateb i'r angen am ddysgu ar y cyd		CGâPh

Datganiad 5:	**Blaenoriaeth:**
Bydd pob ysgol yn gallu arddangos **ethos ysgol-gyfan** a fydd yn adlewyrchu gwerthoedd ADFacADC.	**ISEL**

Eglurhad: Yn amlwg mae ysgolion yn hanfodol i greu unigolion a all chwarae rhan lawn a gweithredol mewn cymdeithas a deall yr egwyddorion sy'n sail i hynny. Os gall ysgol ddarparu amgylchedd ar gyfer disgyblion sy'n eu galluogi i weithredu'n unol â'r egwyddorion hyn a chymryd rhan yn y broses o benderfynu sut y rheolir eu hysgol ar eu rhan, bydd yn haws iddynt allu gwneud penderfyniadau cyfrifol pan fyddant yn oedolion.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae nifer o gynlluniau'n bodoli (gweler hefyd yr Atodiad Camau Gweithredu) sydd o gymorth, neu'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fabwysiadu dull ysgol-gyfan ar gyfer darparu ADF neu ADC, ond mae cyfranogiad o'r rhain yn glytiog ar hyn o bryd. Mae nifer o Awdurdodau wedi pennu targedau ar gyfer cael ysgolion i gymryd rhan mewn mentrau Ysgol Iach neu Eco Ysgol o fewn eu CSA. Dim ond un o'r cynlluniau hyn (Y Wobr Ysgolion Cynaliadwy) sy'n ymgais i ddod â'r holl elfennau ynghyd (gan gynnwys iechyd, yr amgylchedd a dinasyddiaeth fyd-eang) ac mae hon wedi'i chyfyngu i un sir.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru'n cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Cwestiwn Allweddol 1…datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu (parch at amrywiaeth, cyfranogiad, cynnydd o ran datblygiad cymdeithasol, moesol a datblygiad ehangach) Cwestiwn Allweddol 3 …i ba raddau y mae profiadau dysgu'n ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach (ADC)	Estyn	
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Cynllun Gwobrwyo Cenedlaethol yn cwmpasu ADCaDF – yn seiliedig ar bartneriaeth Ysgolion Cynaliadwy Sir Benfro	Llyw. y Cynulliad	2004-05
• Awgrym y dylai Cymdeithasau Pynciau roi mwy o arweiniad wrth hyrwyddo ethos ysgol-gyfan ar gyfer ADFacADC	Cymdeithasau Pynciau	

Datganiad 6:	**Blaenoriaeth:**
Ysgolion yn gweithredu'n **gynaliadwy**, o safbwynt yr amrediad o faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac yn deall y rhesymau dros hynny.	**ISEL**

Eglurhad: Yn yr un modd â datganiad 5, os yw'r ysgol yn annog disgyblion i ddod yn ddinasyddion byd-eang ac yn mabwysiadu dull ysgol-gyfan er mwyn cyflawni hyn yna'n ddelfrydol mae angen iddi allu 'gweithredu' yn unol â'r hyn a 'bregethir'. Sonnir am 'amrediad' yn fwriadol er mwyn sicrhau nad yw'r gair 'cynaliadwy' yn berthnasol i un o'r tri maes yn unig. Mae 'cynaliadwyedd economaidd' yn wahanol i 'gynaliadwyedd' yn gyffredinol, sy'n gorfod ystyried buddiannau pob un o'r tri maes yr un pryd.

Y Sefyllfa yn 2004:
(Gweler hefyd yr adran hon ar gyfer Datganiad 5) Wrth i weddill y gymdeithas ddechrau ymgodymu â her cynaliadwyedd (e.e. Cynllun Llyw. Y Cynulliad, A21LI Awdurdodau Lleol a Strategaethau Cymunedol) bydd mwy a mwy o ddisgwyl i ysgolion wneud yr un modd. Pwysleisiwyd hefyd yn y Fforymau fod angen i'r awdurdod lleol sy'n rhoi cymorth weithredu yn y fath fodd cyn y gall ysgolion eu hunain ymateb yn llawn i'r her. Cafodd hyn ei nodi ac, o ystyried maint gweithgarwch llywodraeth leol yn y maes hwn, tybir y bydd awdurdodau yn gynyddol mewn sefyllfa i wneud hynny.

Camau Gweithredu: Presennol **Gan bwy:** **Pryd:**
I'W CADARNHAU

Camau Gweithredu: Newydd
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn

Camau Gweithredu: Dymunol

- Fel rhan o ddyletswydd y Cynulliad i hybu "*ein cynaliadwyedd ni ein hunain a chynaliadwyedd eraill*" mae'r Fersiwn Ddrafft o'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yn cynnig *"gweithredu ymrwymiad y Cynulliad i ddod yn wlad Masnach Deg"*. Dylid ystyried ffyrdd y gallai ysgolion fynd ati'n weithredol i roi cymorth yn hyn o beth os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Datganiad 7:	**Blaenoriaeth:**
Tystiolaeth ymhob ysgol Gynradd ac Uwchradd o **gamau gweithredu a gwaith ymchwil yn cael eu harwain gan fyfyrwyr** ym maes ADFacADC.	**ISEL**

Eglurhad: Mae dysgu sy'n cael ei arwain gan fyfyrwyr yn awgrymu rhywfaint o berchenogaeth ar y broses addysgol a byddai hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ddisgyblion bennu eu hagenda eu hunain a defnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol er mwyn mynegi safbwyntiau ar eu gwaith.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae pob un o'r awdurdodau sydd ynghlwm wrth y Fforymau'n cynorthwyo pob un o'u hysgolion i sefydlu cyngor ysgol. Yn yr un modd mae'r rhan fwyaf hefyd yn sefydlu mecanwaith Cymru-gyfan i alluogi trafodaethau i ddigwydd rhwng cynghorau ysgolion, ac ag asiantaethau eraill sydd â diddordeb mewn cynnwys pobl ifanc yn eu gwaith. Heblaw am un, nid oes llawer o wybodaeth arall ar gael o ran faint o enghreifftiau o gamau gweithredu a gwaith ymchwil yn cael eu harwain gan fyfyrwyr ym maes addysg sydd ar hyn o bryd.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Cynghorau Ysgolion	Llyw. y Cynulliad	
• Mae **Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy** yn llwyfan sy'n rhoi cyfle i wrando ar syniadau pobl ifanc yng Nghymru am DC (www.wyfsd.org).	WYFSD	Yn barhaus
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		

Datganiad 8:	**Blaenoriaeth:**
Bydd pob ysgol yn **gwerthuso** ei darpariaeth ym maes ADFacADC.	**CANOLIG**

Eglurhad: Mae a wnelo hyn â phroses ddysgu ysgolion eu hunain. Er mwyn hunanwerthuso eu gwaith, bydd angen i staff ddeall a 'bod yn berchen ar' eu gwaith ym maes ADFacADC.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae trefniadau arolygu o 2004 ymlaen yn cydnabod bod hunanwerthuso erbyn hyn yn nodwedd ar waith nifer o ysgolion a bydd lle mwy amlwg yn cael ei roi i hunanwerthuso yn y broses arolygu.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
Gweler uchod		
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
• **Cyswllt lleol rhwng ysgolion -** ysgolion sydd wedi hen ennill eu plwyf fel darparwyr ADCaDF yn cysylltu ag ysgol leol arall sydd am ddatblygu ei gwaith yn y maes. Awgrym gan Fforymau Rhanbarthol GCE Sir Gaerfyrddin. Gellid gwneud yr un modd mewn rhanbarthau eraill.	Fforymau Ranbarthol GCE Sir Gaerfyrddin	
• Cymhorthyn archwilio ADFacADC i ysgolion yng Nghymru		

Sector: Cymorth

Datganiad 9	**Blaenoriaeth:**
Bydd adnoddau addas o ansawdd uchel ar gyfer y **Cwricwlwm a DPP** yn Saesneg ac yn Gymraeg yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo.	**CANOLIG**

Eglurhad: Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith amlwg, er mwyn i ysgolion ddysgu ADFacADC, y bydd angen i adnoddau addas o ansawdd uchel fod ar gael iddynt eu defnyddio 'yn yr ystafell ddosbarth' ac fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac yn y ddwy iaith.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae mwy o adnoddau Saesneg ar gael ym maes ADFacADC nag y mae ymarferwyr yn sylweddoli (gweler datganiad 10). Cafwyd peth gwelliant o ran darparu deunyddiau Cymraeg/dwyieithog i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer ysgolion cynradd ond mae "diffyg difrifol o ran deunyddiau Cymraeg/dwyieithog i roi cymorth ym maes dinasyddiaeth fyd-eang yn y sector uwchradd". (*Darpariaeth Adnoddau Cymraeg fel cymorth i Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang a Datblygu Cynaliadwy* – Ymchwiliad gan Ganolfan Addysg y Byd CPC Bangor 2003)

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Mae Gwasanaethau Benthyca Adnoddau ADFacADC yn weithredol yn yr ardaloedd canlynol: Powys (Pedec), GC (CAB a'r Ganolfan Ewropeaidd), GDd (Gwasanaeth llyfrgell i ysgolion), Sir Benfro (Global Connections), Caerdydd (Y Ganolfan Ewropeaidd) a hefyd yn rhai o'r sefydliadau HCA		Yn barhaus
• Rhaglen Gomisiynu ACCAC 2004-05 Geiriadur/geirfa 'Egluro Terminoleg' ADFacADC yn cynnwys geiriau ac ymadroddion allweddol sy'n addas ar gyfer CA2/3. CD Rom rhad ac am ddim yn cael ei anfon i ysgolion	ACCAC	2004-05

Camau Gweithredu: Newydd

Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn

Camau Gweithredu: Dymunol

- Ymestyn a diweddaru Gwasanaethau Benthyca Adnoddau presennol yn ôl yr angen
- Cydweithio â gwasanaethau llyfrgell i ysgolion i sicrhau bod adnoddau ADFacADC ar gael i athrawon mewn ardaloedd eraill
- Dylai adnoddau ADFaDC fod ar gael yn llyfrgelloedd pob sefydliad HCA
- Argymhellion o ran adnoddau (yn seiliedig ar werthusiadau athrawon) – sicrhau cyfraniad Cymreig i'r adran hon o'r wefan Global Dimension
- Mwy o adnoddau 'generig' wedi'u paratoi ar y cyd megis 'Byd-weithio'
- Paratoi mwy o adnoddau yn Gymraeg

Datganiad 10	**Blaenoriaeth:**
Mae pob ysgol yn ymwybodol o, ac yn gallu **cael mynediad at** gymorth sydd ar gael gan amrediad o wahanol ddarparwyr cymorth i'w cynorthwyo i gylfwyno ADFacADC.	**UCHEL**

Eglurhad: Tra bo datganiad 9 yn sicrhau bod yr adnoddau ar gael, mae datganiad 10 yn ymdrech i sicrhau bod athrawon yn gwybod pa adnoddau a chymorth arall sy'n bodoli ac, yn bwysig, ble gallant gael gafael ar y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae gwybodaeth am yr ymwybyddiaeth o adnoddau penodol yn glytiog ac mae fwy neu lai'n adlewyrchu bodolaeth llyfrgelloedd sy'n cynnwys adnoddau ADFacADC ledled Cymru, nad ydynt yn gynhwysfawr o bell ffordd. Mae rôl Gwasanaethau Llyfrgell i Ysgolion o ran darparu adnoddau, yn enwedig yn yr ardaloedd nad yw'r llyfrgelloedd sy'n cynnwys yr adnoddau'n eu gwasanaethu, yn cael ei harchwilio gan rai o'r Fforymau Rhanbarthol.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Gwasanaethau Benthyca Adnoddau	CAD/Canolfannau Ewropeaidd/Sefydliadau HCA	
• Gwefan ADC	Panel Ymgynghorol ADCaDF	Yn barhaus
• Darparu adnoddau a rhoi cymorth i ddigwyddiadau ym maes ADF ar gyfer athrawon yn y GDd (Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir Y Fflint) a Chaerdydd	Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru a CP Cymru gyda chymorth GCE	Haf 04
• Sioeau Addysg Cenedlaethol	Llyw. y Cynulliad	Haf 04
Camau Gweithredu: Newydd		
• Gwefan ADC yn cael ei datblygu fel ei bod yn cynnwys DF	Llyw. y Cynulliad/GCE	2004
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Fforymau Rhanbarthol yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd eraill	GCE	erbyn 2006
• Darparu adnoddau a rhoi cymorth i ddigwyddiadau ym maes ADFacADC sydd ar gael i ranbarthau eraill	RhHRh/GCE?	erbyn 2006
• Cydweithio wrth fynd ati i gynllunio ar gyfer y Sioe Addysg yn y dyfodol. Cyfrannu i'r rhaglen seminarau	Panel Ymgynghorol ADCaDF	yn barhaus
• Datblygu'r wefan ADCaDF ymhellach fel adnodd sy'n rhoi cymorth addysgol		yn barhaus
• Meithrin cysylltiadau â GCaD Cymru a gwefannau addysg eraill perthnasol	Llyw. y Cynulliad a Phartneriaid	

Datganiad 11	**Blaenoriaeth:**
Mae pob ysgol yn **mynd ati i geisio cymorth** pan fo hynny'n briodol gan ystod o ddarparwyr allanol i'w cynorthwyo i wella eu gwaith ym maes ADFacADC.	**ISEL**

Eglurhad: Yn seiliedig ar ddatganiadau 9 a 10, a chan gymryd bod yr adnoddau a'r cymorth yn bodoli a bod athrawon yn gwybod sut i gael gafael arnynt, mae'r datganiad hwn yn ymgais i sicrhau bod ysgolion yn cymryd y cam nesaf ac yn mynd ati i ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael drwy ei gyflwyno i'r ysgol.

Y Sefyllfa yn 2004: Eto mae cryn amrywiaeth o un rhanbarth i'r llall. Pan fo llawer o gymorth ar gael yn y rhanbarth mae mwy o dystiolaeth bod ysgolion yn mynd ati i geisio cymorth/cyfraniad darparwyr allanol. Mae adborth oddi wrth athrawon yn dynodi bod prinder amser ar gyfer ymchwilio i'r hyn sydd ar gael.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
I'W CADARNHAU		
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Cynyddu nifer y cyfranwyr sy'n defnyddio (ac yn diweddaru'r wybodaeth sydd ganddynt ar) y wefan ADCaDF		
• Archwiliad o gyfranwyr i'r cyfeiriadur rhithwir er mwyn cael gwybodaeth gychwynnol am y lefelau gweithgarwch presennol	GCE	2004 ailadrodd 2008-9
• Codi ymwybyddiaeth o'r wefan ymysg ysgolion ac athrawon. Mae angen strategaeth ar gyfer cyhoeddusrwydd a marchnata.	Cyfanfyd a'r Fforymau Rhanbarthol	2004 –

Datganiad 12:	**Blaenoriaeth:**
Mae ysgolion yn mynd ati i **gysylltu** ag amrediad o wahanol leoedd, yn lleol ac yn fyd-eang, gan ddefnyddio amryw gyfryngau.	**UCHEL**

Eglurhad: Er mwyn i blant ddeall eu lle yn y byd mae angen iddynt gael cyfleoedd i gysylltu â'r byd mewn ffordd sydd o fudd i bawb sy'n cymryd rhan ac sy'n manteisio ar y cyfoeth o wahanol gyfryngau sydd ar gael. Dylai hon fod yn broses sy'n cynnwys cyd-drafod a chyfathrebu ag eraill, yn hytrach na phroses dechnegol yn unig.

Y Sefyllfa yn 2004: Daw nifer o athrawon i wybod am Ddinasyddiaeth Fyd-eang am y tro cyntaf yn sgîl ymwybyddiaeth neu gyfle i gyfranogi o rai o'r rhaglenni ardderchog (gweler yr Atodiad) sy'n bodoli er mwyn hwyluso gweithgareddau cysylltu.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Mae Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru'n darparu cyrsiau ac yn rhoi cymorth i athrawon sy'n dymuno mynd ar drywydd yr agwedd ryngwladol.	CP Cymru ac Ymgynghorwyr ALl	Yn barhaus
• Mae rhaglen **Partneriaethau Ysgolion Byd-eang y DFID** yn cynnig grantiau ar gyfer ymweliadau o'r ddau du, prosiectau'n ymwneud â'r cwricwlwm, teithiau cyfnewid i fyfyrwyr uwchradd/AB	DFID, Y Cyngor Prydeinig	Yn barhaus

Camau Gweithredu: Newydd

Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn

Camau Gweithredu: Dymunol

- Mae angen dod o hyd i ffyrdd y gall ysgolion gydweithio er mwyn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a chodi lefelau dealltwriaeth trwy rannu arferion da
- Yn nodweddiadol mae cyfoeth o weithgarwch rhyngwladol ym mhob rhan o waith Awdurdodau Lleol. Mae angen ystyried ffyrdd o elwa ar hyn
- Mae angen ystyried dichonolrwydd y syniad o hwyluso cysylltiadau trwy gynnwys y niferoedd cynyddol o fyfyrwyr tramor mewn sefydliadau addysg uwch (AU)

Sector: Hyfforddiant

Datganiad 13:	**Blaenoriaeth:**
Bydd ADFacADC yn dod yn rhan statudol o bob cwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (**HCA**)	**UCHEL**

Eglurhad: Gan fod ADFacADC yn berthnasol i bob maes o fewn y cwricwlwm ac yn gynyddol yn dod yn nodwedd ar fywyd pob dydd mae angen i bob athro neu athrawes newydd, ym mhob disgyblaeth a chyfnod allweddol, allu deall y rhan y mae angen iddynt ei chwarae er mwyn creu dinasyddion byd-eang sy'n gallu creu a chynnal cymdeithas gynaliadwy.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae Canolfan Addysg y Byd a Phrifysgol Bangor wedi bod yn rhan o brosiect arbrofol ledled y DU a ariannwyd gan y DFID, *Cynnwys Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang a Datblygu Cynaliadwy mewn Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon*. Mae'r prosiect tair blynedd hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn. Bu'r prosiect yn eithriadol o lwyddiannus ac mae wedi cyfrannu at lunio model effeithiol, cynaliadwy y gellir ei efelychu o ADFaDC mewn cyrsiau HCA yng Nghymru.

Mae'n amlwg bod angen ychwanegu at y gwaith hwn ond bydd hynny'n dibynnu ar gael nawdd pellach.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Mae **Prifysgol Cymru Bangor a Chanolfan Addysg y Byd** wedi bod yn rhan o brosiect arbrofol a ariannwyd gan y DFID, *Cynnwys ADFaDC mewn Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon*. Mae'r arbrawf wedi'i chwblhau erbyn hyn.	CAB a Phrifysgol Cymru Bangor, DFID	Cwblhawyd ym mis Ebrill 04
Camau Gweithredu: Newydd		
• **UCET Cymru**. Prosiect a ariennir gan Lyw. Cynulliad Cymru *Dull Cymru-gyfan o Gynnwys ADCaDF mewn Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon*	UCET Cymru	I'W GADARNHAU
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Gweithredu'r cynigion sy'n deillio o grŵp Tasg a Gorffen UCET Cymru		
• *…..cyflwyno datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang fel modiwl mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol a chyrsiau sefydlu i athrawon a datblygu hyfforddiant penodol ym maes Datblygiad Proffesiynol Parhaus*.(Fersiwn Ddrafft y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy)	Llyw. y Cynulliad	

Datganiad 14:	**Blaenoriaeth:**
Bydd **athrawon newydd gymhwyso** yn deall ac yn gwerthfawrogi gwerth ADFacADC.	**ISEL**

Eglurhad: Mae a wnelo Datganiad 13 ag athrawon sy'n derbyn hyfforddiant cychwynnol, ond mae'r datganiad hwn yn ymwneud ag athrawon sydd newydd gymhwyso, a sicrhau bod ganddynt hwythau'r un sgiliau a dealltwriaeth sy'n angenrheidiol.

Y Sefyllfa yn 2004: Yn dilyn gostwng cyllideb GEST yn sylweddol eleni, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol sy'n gysylltiedig â'r Fforymau wneud gostyngiad sylweddol yn yr hyfforddiant sydd ar gael i athrawon newydd gymhwyso.

Camau Gweithredu: Presennol **Gan bwy:** **Pryd:**
I'W CADARNHAU

Camau Gweithredu: Newydd
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn

Camau Gweithredu: Dymunol

Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn

Datganiad 15	**Blaenoriaeth:**
Bydd cyfran gynyddol o athrawon yn ymgymryd â gweithgareddau ADFacADC fel rhan o'u **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP**)	**CANOLIG**

Eglurhad: Mae a wnelo'r datganiad hwn â rhoi'r cyfle i ymarferwyr presennol a mwy profiadol ddysgu am, ac ymgymryd â gweithgareddau ADFacADC fel rhan o'u DPP.

Y Sefyllfa yn 2004: Er bod maes ADCacADF wedi cael ei adnabod fel maes allweddol a fydd yn cael cymorth trwy arian y Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST) a ddyrennir i ysgolion, mae toriadau diweddar yn golygu y bydd y cyllidebau ar gyfer hyfforddiant yn cael eu gostwng yn sylweddol. Mae nifer o bryderon ymhlith athrawon ac ymgynghorwyr ynghylch goblygiadau ac effeithiau posib nid yn unig hyn ond hefyd y gostyngiad yn y grantiau a fydd ar gael gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.
Mae pryderon hefyd na fydd digon o hyfforddwyr sydd â phrofiad addas ar gael i weithio ar lefel ranbarthol wrth i ddiddordeb mewn ADCaDF gynyddu yn y dyfodol. Felly mae'n rhaid wrth ddull mwy cydgysylltiedig.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru -** mae 3 blaenoriaeth i'r fframwaith ar gyfer DPP: canolbwyntio ar unigolion (anghenion athrawon unigol), canolbwyntio ar ysgolion (gweithgareddau er mwyn cwrdd â gofynion yr ysgol), canolbwyntio ar fentrau Cenedlaethol/AALl (gweithgareddau DPP sy'n cwrdd â gofynion mentrau lleol gan gynnwys datblygu rhwydweithiau cenedlaethol neu leol)	CACC	Yn barhaus
• **DFID/Y Cyngor Prydeinig: Partneriaeth Ysgol Fyd-eang** Modiwlau Datblygiad Proffesiynol wedi'u Hachredu	DFID/CP	Yn barhaus
• **Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant** (GEST) **Gweithgaredd 1:** Cwricwlwm Ysgol **Blaenoriaeth 1c** Meysydd allweddol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Mae'r meysydd a fydd yn cael cymorth yn 2004-05 yn cynnwys ADCaDF	Llyw. y Cynulliad	Yn barhaus

Camau Gweithredu: Newydd

Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn

Camau Gweithredu: Dymunol

- *…..cyflwyno datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang fel modiwl mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol a chyrsiau sefydlu i athrawon a datblygu hyfforddiant penodol ym maes Datblygiad Proffesiynol Parhaus*.(Fersiwn Ddrafft y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy)

- Ceisio gwybodaeth gychwynnol am gynnwys presennol cynlluniau sydd eisoes yn bodoli a faint o athrawon yng Nghymru sy'n cyfranogi ohonynt

- Datblygu trefniadau monitro presennol ar gyfer DPP a threfniadau casglu gwybodaeth i gynnwys manylion y ddarpariaeth ym maes DFacADC

Datganiad 16	**Blaenoriaeth:**
Dylai fod gan bob Awdurdod Lleol rywun sy'n **gyfrifol am ADFacADC** a dylai dderbyn hyfforddiant priodol.	**CANOLIG**

Eglurhad: Mae'n amlwg bod angen darparwr gwybodaeth y mae'n hawdd i ysgolion ac athrawon fynd ato/ati trwy Wasanaeth Ymgynghori pob awdurdod.

Y Sefyllfa yn 2004: Ar hyn o bryd, o fewn Awdurdodau Addysg, mae cyfrifoldeb am DF yn cael ei rannu rhwng ystod o bynciau neu themâu eraill, a'r Ymgynghorwyr sy'n gyfrifol am ABCh a Daearyddiaeth yn aml yw'r rhai sy'n ymddiddori fwyaf mewn defnyddio adnoddau DF a.y.b. Un awdurdod yn unig sydd ag ymgynghorydd y mae teitl ei swydd yn cynnwys DF/ADC. O ran yr Awdurdodau Lleol ar y cyfan, mae gan bob un ohonynt o leiaf un swyddog sy'n gyfrifol am hyrwyddo neu gydlynu datblygu cynaliadwy o fewn y sir, ac mae fel arfer yn rhan o dîm y Prif Weithredwr, y Tîm Polisïau neu'r Tîm Strategaeth Gymunedol. Disgwylir y byddai angen i unrhyw un â chyfrifoldeb am ADFacADC yn y dyfodol gydweithio'n glos iawn â'r staff datblygu cynaliadwy presennol.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Ymgynghorydd o bob awdurdod yn chwarae rhan weithredol yn y Fforymau Rhanbarthol priodol	Awdurdod Lleol/ Fforymau Rhanbarthol	2004 - 2006
• Ystyried dichonolrwydd Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol		2004 - 2007

Datganiad 17	**Blaenoriaeth:**
Bydd hyfforddiant ym maes ADFacADC yn cael ei ddarparu ar gyfer **Arolygwyr** annibynnol ac AALl.	**CANOLIG**

Eglurhad: Mae cryn dipyn o dystiolaeth ar y lefel leol o'r angen i sicrhau bod gan arolygwyr ysgolion ddealltwriaeth gliriach a gwell er mwyn iddynt allu adnabod a chymeradwyo'r amrediad eang o enghreifftiau o ddefnyddio ADFacADC yn yr ystafell ddosbarth.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae profiadau gydag arolygon wedi bod yn amrywiol. Er bod nifer o enghreifftiau o gydnabod a gwneud sylwadau ar waith ysgol ym maes ADFacADC yn nghyd-destun arolwg, cafwyd enghreifftiau o beidio â sylwi ar waith fel rhan o'r broses arolygu a'r gwaith hwnnw wedi cael cydnabyddiaeth yn gyffredinol oherwydd y cyfraniad i ADFacADC.

Camau Gweithredu: Presennol **Gan bwy:** **Pryd:**

Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn

Camau Gweithredu: Newydd

- Mae Estyn wedi paratoi newyddlen sy'n rhoi rhestr eglur o gwestiynau y dylai arolygwyr eu gofyn (yn debyg i newyddlen 1401) ac sy'n gysylltiedig â hyfforddiant presennol

Camau Gweithredu: Dymunol

- Ystyried dichonolrwydd Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol

Sector: Asiantaethau

Datganiad 18:	**Blaenoriaeth:**
Bydd corff o dystiolaeth sy'n dangos **arferion da** ym maes ADFacADC yn cael ei gasglu a bydd ar gael i ysgolion a'u partneriaid gael mynediad ato.	**CANOLIG**

Eglurhad: Er mwyn i athrawon, ymgynghorwyr ac arolygwyr ddeall yr amrediad o ddefnyddiau a dulliau posib er mwyn cyflwyno ADFacADC a gweld potensial llawn y rhain ym myd addysg, dylid casglu amrediad eang o enghreifftiau a'u cyflwyno mewn ffordd fel y gellir cael mynediad atynt yn rhwydd. Mae a wnelo'r gair 'partneriaid' â mudiadau a sefydliadau eraill sy'n cydweithio ag ysgol benodol. Byddai hefyd yn cynnwys ysgolion eraill sy'n bartneriaid ac sy'n cysylltu ag ysgolion yn y DU gan y byddai hyn yn sicrhau bod ein harferion da ni ar gael o fewn eu systemau addysg hwy eu hunain a bod eu harferion da hwythau ar gael o fewn ein system addysg ni.

Y Sefyllfa yn 2004: Yn 2002, cyhoeddwyd *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang gan ACCAC, DFID, Estyn a Llywodraeth y Cynulliad*. Roedd yn cynnwys enghreifftiau o bob cwr o Gymru o ysgolion sy'n defnyddio dulliau nodedig o gyflwyno DFacADC. Amcan y cyhoeddiad oedd amlygu'r cysylltiadau rhwng DFacADC. Mae mwy o ysgolion yn dod i wybod am ei fodolaeth a chaiff ei ystyried yn fan cychwyn ar gyfer corff ehangach a mwy cynhwysfawr o dystiolaeth.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Gweler y paragraff uchod		
Camau Gweithredu: Newydd		
• Mae'r Fforymau Rhanbarthol yn llunio cofrestrau o gamau gweithredu yn eu rhanbarthau y gellid eu defnyddio mewn ardaloedd eraill neu a allai fod yn sail i gofrestr arferion gorau (gweler yr Atodiad Camau Gweithredu)	Fforymau Rhanbarthol GCE	2004 - 2006
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Datblygu'r wefan ADCaDF ymhellach er mwyn galluogi ysgolion/ALl i hyrwyddo'u prosiectau/gweithgareddau eu hunain		

Datganiad 19:	**Blaenoriaeth:**
Bydd Llyw. y Cynulliad yn gofyn i Estyn ymgymryd ag **arolwg** o ADFacADC erbyn diwedd y 5 mlynedd ar gyfer gweithredu'r strategaeth GCE.	**UCHEL**

Eglurhad: Wrth lunio'r strategaeth hon, casglwyd corff o dystiolaeth a fydd yn gweithredu fel asesiad cychwynnol o sefyllfa ADFacADC yn 2004. Er nad yw'r wybodaeth gychwynnol hon yn gynhwysfawr o bell ffordd o safbwynt meintiol, mae'n sail ar gyfer cymharu canlyniadau asesiadau ansoddol, megis yr un a gynigir yn y datganiad hwn, yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth GCE wedi'i bwriadu i bara 5 mlynedd, felly byddai arolwg gan Estyn ar ddiwedd y cyfnod hwn yn rhoi asesiad o effeithiolrwydd y strategaeth GCE ei hun.

Y Sefyllfa yn 2004: Bydd y gwaith o gasglu gwybodaeth gychwynnol am GCE wedi cael ei gwblhau i raddau helaeth erbyn mis Medi. Mae angen casglu mwy o ymatebion gan athrawon o hyd – nid yw'r arolwg yn cynrychioli pob ardal eto ac nid oes digon o ymatebion gan athrawon uwchradd.

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Cyfeirio at yr wybodaeth gychwynnol a gasglwyd fel rhan o'r Broses GCE	GCE	2004
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Monitro a gwerthuso parhaus (asesiad blynyddol o berfformiad yng nghyswllt camau gweithredu a nodwyd**)**	GCE	2005 - 2009

Datganiad 20:	**Blaenoriaeth:**
Dylai pob ysgol ymgymryd ag amrediad o **weithgarwch** ym maes ADFacADC **ym mhob cyfnod allweddol**	**ISEL**

Eglurhad: Mynegwyd pryder, yn wyneb pwysau'r cwricwlwm, y gallai rhai ysgolion ystyried ADFacADC fel dim byd ond blwch arall y mae angen rhoi tic ynddo. Diben y datganiad hwn yw ceisio sicrhau y caiff ADFacADC eu cynnwys yn y cwricwlwm trwy gydol cyfnod pob disgybl yn yr ysgol.

Y Sefyllfa yn 2004: Mae rhai enghreifftiau ardderchog o arferion da mewn ysgolion lle mae naill ai ADF neu ADC (y ddau faes, weithiau) yn rhan annatod o'r cwricwlwm a addysgir ac o ethos yr ysgol gyfan, ond mae hyn yn tueddu i ddigwydd mewn achosion unigol ac ychydig iawn o'r rhain sydd i'w cael ar y cyfan. Nid oes llawer o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill ond roedd yr Holiadur GCE ar gyfer Ysgolion yn ymgais i bwyso a mesur gweithgareddau presennol trwy roi cyfle i ysgolion ateb cwestiwn agored. Nid yw'r canlyniadau'n gynhwysfawr o bell ffordd gan nad yw'r holiadur yn gynrychiolaidd eto ac mae angen ei ddosbarthu'n fwy. Mae canfyddiadau hyd yn hyn yn dynodi bod ysgolion yn cynnwys:

- ADF yn y ffyrdd canlynol (o'r mwyaf i'r lleiaf): 1.Daearyddiaeth, ABCh 2. Gwasanaethau 3. Add. Gref. 4. Elusennau a chodi arian, cyswllt rhwng ysgolion, 5. Grwpiau ymweld, cyflwyniadau, cerddoriaeth 6. Gwyliau a dathliadau, cynghorau ysgolion.
- ADC yn y ffyrdd canlynol 1.Daearyddiaeth 2. Gwyddoniaeth 3. Add. Gref, ABCh 4. Ailgylchu, ymweliadau ag ysgolion, eco-ysgolion, dŵr (cadwraeth a pha un a oes dŵr yfed ar gael).

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Dosbarthu holiadur GCE i ysgolion	GCE	2004
Camau Gweithredu: Newydd		
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		
Camau Gweithredu: Dymunol		
• Monitro cyfranogiad o fentrau/cynlluniau gwobrwyo	I'W GADARNHAU	
• Ailddosbarthu'r holiadur ar ddiwedd y 5 mlynedd	I'W GADARNHAU	2008-09

YR HYN Y GALL GCE EI GYFLAWNI

Er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cyfrannu at, ac yn cwblhau rhaglenni a pholisïau addysg ehangach bu'n angenrheidiol treulio cryn dipyn o amser yn parhau i greu proffil o weithgareddau a mentrau presennol. Er y disgwylir y bydd angen i hyn barhau, mae'n amlwg bod angen adnabod yn awr yr hyn y gall GCE ei gyflawni'n realistig. Prif amcan GCE ers y cychwyn cyntaf yw adnabod y mecanweithiau gorau ar gyfer rhoi cymorth i Ddinasyddiaeth Fyd-eang mewn ysgolion ac mae'r cynllun gweithredu canlynol (am y 2 flynedd gyntaf) yn adlewyrchu hyn.

Yn amlwg mae'n rhaid wrth ddull cydgysylltiedig a mwy 'cydweithredol' a fydd yn gofyn am Gydlynu Cenedlaethol a mwy o gymorth ar y lefel ranbarthol. O ran yr olaf o'r rhain, cynigir sefydlu Fforymau Rhanbarthol mewn rhanbarthau eraill (nid oes rhaid iddynt fod yn fforymau newydd – gellir ehangu cylchoedd gorchwyl rhwydweithiau presennol) a fydd yn y pen draw yn sicrhau bod Cymru gyfan yn cael ei chynnwys a'i chynrychioli.

Cydlynu Cenedlaethol:

Diben:

- Rheolaeth ariannol
- Monitro a gwerthuso
- Hwyluso trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng y Fforymau
- Datblygu partneriaethau strategol ymhellach
- Hwyluso cydweithio mwy effeithiol ymysg budd-ddeiliaid.

Fforymau Rhanbarthol

Diben:

- bod o gymorth i ddatblygu camau gweithredu rhanbarthol y gellir eu hefelychu'n genedlaethol a chamau gweithredu cenedlaethol y gellir eu hefelychu'n rhanbarthol
- rhannu gwybodaeth ac arferion gorau

Camau Gweithredu:

- Atgyfnerthu a rhoi cymorth i rwydweithiau arbrofol presennol
- Hwyluso'r broses o sefydlu rhwydweithiau mewn rhanbarthau eraill (neu roi cymorth i ehangu cylch gorchwyl rhai presennol)

Targed:

- 8? Fforwm Rhanbarthol (a fyddai, gyda'i gilydd, yn cynnwys Cymru gyfan) erbyn diwedd Blwyddyn 2

Mae'r cynllun gweithredu canlynol yn ymgais gyntaf i amlygu camau gweithredu penodol o'r adran flaenorol er mwyn rhestru amcanion y tybir y gallai GCE eu cyflawni'n realistig. Nid dyma'r cynllun terfynol – mae angen trafodaethau pellach; ond bydd yn sail i gais i DFID yn yr haf (yn barod ar gyfer gweithredu ym mis Medi 04).

Mae cwestiynau penodol ar ddiwedd yr adran hon y byddai o werth mawr inni dderbyn eich ymateb iddynt.

CYNLLUN GWEITHREDU/CANLYNIADAU
BLWYDDYN 1 A 2

SECTOR: POLISÏAU LLEOL

Tystiolaeth o Angen	**Gweithgareddau**	**Targedau**	**Pryd**	**Monitro**
Datganiad 1	Hwyluso cydweithio mwy effeithiol rhwng budd-ddeiliaid. Digwyddiad hyfforddi: sgiliau partneriaeth.	Ymchwilio a Datblygu ac arbrofi mewn 1 rhanbarth. Gwneud yr un modd mewn rhanbarthau eraill (gan ddibynnu ar y gwerthusiadau)	2004-2005 2005-2006	Gwerthusiadau ac adborth gan gyfranogwyr. Nifer y ceisiadau am nawdd ar y cyd (Rhaglen grantiau bychain y DFID a grantiau Panel Ymgynghorol ADCaDF Llyw. y Cynulliad).
Datganiad 3 hefyd Datganiad 10	**Hyrwyddo a rhoi cymorth ar gyfer rhannu arferion da**. Datblygu'r wefan ADCaDF ymhellach i alluogi ysgolion i rannu eu gwaith/prosiectau eu hunain	15 Astudiaeth achos 30 erbyn diwedd Bl 2	2004-2005 2005-2006	Ystadegau gwefannau Adborth o'r Fforymau
Datganiad 8 hefyd Datganiad 12	**Arbrofi â chyswllt lleol rhwng ysgolion** (ysgolion sydd â hanes o gyflwyno ADCaDF yn cysylltu ag ysgol arall leol sydd am ddatblygu ei gwaith yn y maes).	5 ysgol Sir Gaerfyrddin Gwneud yr un modd mewn rhanbarthau eraill (gan ddibynnu ar y gwerthusiadau)	2004-2005 2005-2006	Gwerthusiadau ac adborth gan gyfranogwyr.

SECTOR: CYMORTH

Tystiolaeth o Angen	**Gweithgareddau**	**Targedau**	**Pryd**	**Monitro**
Datganiad 9	**Gwasanaethau Benthyca Adnoddau** Cydweithio â gwasanaethau llyfrgell i ysgolion a darparwyr gwasanaethau benthyca adnoddau eraill i sicrhau bod adnoddau ADCaDF ar gael i fyfyrwyr ac athrawon sydd eisoes mewn swyddi.	Mae gan bob ysgol yn y 4 rhanbarth yr arbrofir ynddynt fynediad at adnoddau 15% o'r ysgolion yn defnyddio 'r	2004-2005 erbyn 2006	Cofnodion benthyca adnoddau Patrymau a thueddiadau

	Cymharu cofnodion benthyca – cael gwybodaeth gychwynnol. Cytuno ar fformat ar gyfer casglu data newydd. Diweddaru'r adnoddau sydd ar gael. Hyrwyddo'r gwasanaeth yn leol (Fforymau). Efelychu'r Model Benthyca Adnoddau mewn rhanbarthau newydd	gwasanaeth 30% yn defnyddio'r gwasanaeth 4 rhanbarth newydd	erbyn 2008 2005-2006	blynyddol
Datganiad 10 hefyd Datganiad 17	**Gwefan ADCaDF** Creu adran i ysgolion (fel y gallant roi eu manylion eu hunain am brosiectau). Gweld pa mor ddichonadwy yw adran debyg ar gyfer colegau. Cysylltiadau â chronfeydd data adnoddau (megis Global Dimension gan y DFID a Cyfanfyd – Adnoddau Cymraeg). Cysylltiadau â GCaD Cymru. Sicrhau bod y wefan yn cael ei hyrwyddo a'i diweddaru. Marchnata a chyhoeddusrwydd.		2004-2005	Ystadegau gwefannau Adborth o'r fforymau
Datganiad 10	**Codi Ymwybyddiaeth** Adnoddau ar gyfer ADFacADC cynhadledd undydd ymhob rhanbarth yr arbrofir ynddi (yn seiliedig ar fodel y RhHRh yr arbrofwyd ag ef yn 2003-2004) Gwneud yr un modd mewn ardaloedd newydd	4 ardal yr arbrofir ynddynt 4 rhanbarth newydd	2004-2005 2005-2006	Gwerthusiadau cyfranogwyr
Datganiad 11	**Archwiliad o Gyfranwyr** i'r cyfeiriadur rhithwir er mwyn cael gwybodaeth gychwynnol am lefelau gweithgarwch presennol		2004-2005	ailadrodd 2008-2009

SECTOR: HYFFORDDIANT

Tystiolaeth	Gweithgareddau	Targedau	Pryd	Monitro

o Angen				
Datganiad 15	Ceisio gwybodaeth gychwynnol am gynnwys presennol cynlluniau hyfforddi DPP (ym maes ADCacADF) sydd eisoes yn bodoli a chyfranogiad athrawon yng Nghymru ohonynt.		2004-2005	

SECTOR: ASIANTAETHAU

Tystiolaeth o Angen	**Gweithgareddau**	**Targedau**	**Graddfa Amser**	**Monitro**
Datganiad17	Fforymau Rhanbarthol yn parhau i lunio a diweddaru cofrestrau gweithredoedd rhanbarthol – a'r rhain yn cael eu dosbarthu i fwy o ardaloedd trwy'r wefan ADCaDF.		Yn barhaus	
Datganiad 19	Parhau i gasglu gwybodaeth gychwynnol trwy'r holiadur i ysgolion er mwyn pwyso a mesur y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd	100 o ymatebion (o leiaf)	2004-2005	Ailadrodd yn 2008-2009

ATODIAD CAMAU GWEITHREDU

Nid yw hon wedi'i bwriadu i fod yn rhestr derfynol. Mae'r prosiectau a'r mentrau a gynhwysir wedi cael eu crybwyll yn ystod y broses ymgynghori. Maent yn cael eu cynnwys am eu bod yn gwneud cyfraniad gweithredol tuag at gyflawni'r amcanion mewn datganiadau unigol o fewn y weledigaeth

Dylai unrhyw un sydd am ychwanegu unrhyw gamau gweithredu eraill lanw a dychwelyd y ffurflen yn atodiad 1

Os ydych am hyrwyddo'r gwasanaethau y mae eich sefydliad yn eu darparu ar gyfer ysgolion mae croeso i chi ychwanegu'ch manylion at y cyfeiriadur ar y wefan ADCaDF

Sector: Polisïau Lleol

Datganiad 1: Bydd **Cynlluniau Strategol Addysg** pob Awdurdod Lleol yn cynnwys manylion eu gwaith i hyrwyddo Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADF) ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC).		**Blaenoriaeth:** **UCHEL**
Camau Gweithredu: Presennol I'W CADARNHAU	**Gan bwy:**	**Pryd:**

Datganiad 2: Mae pob ysgol yn cydnabod pwysigrwydd ADFacADC ac yn eu hystyried yn rhan werthfawr o **hawl addysgol** pob plentyn**.**		**Blaenoriaeth:** **CANOLIG**
Camau Gweithredu: Presennol • Hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr	**Gan bwy:** Cyngor Sir Y Fflint	**Pryd:** Ion 2004

Datganiad 3: Mae ADFacADC yn cael eu hystyried yn **werthfawr** gan ysgolion oherwydd y cyfraniad tuag at ddatblygiad addysgol, personol a chymdeithasol.		**Blaenoriaeth:** **CANOLIG**
Camau Gweithredu: Presennol • Cynhadledd ABCh i Gymru gyfan (Medi) • Cynhadledd y Pedair Cenedl i'w chynnal yng Nghymru ym mis Tachwedd • Prosiect Oxfam (trwy Cyfanfyd), i ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol trwy hyfforddiant Athroniaeth i Blant a Dinasyddiaeth Fyd-eang	**Gan bwy:** Rhwydwaith ABCh Cymru Gyfan Oxfam	**Pryd:** 2004

Datganiad 4: Bydd pob ysgol yn darparu digwyddiadau a gweithgareddau ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer y gymuned ehangach er mwyn galluogi disgyblion a'u teuluoedd i gyfranogi o **ddysgu ar y cyd**.		**Blaenoriaeth:** **ISEL**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Menter ar y cyd rhwng **Cyngor Ieuenctid Cymru a Cyfanfyd** i chwilio am gyfleoedd ar gyfer addysg datblygu yn y sector anffurfiol. Rhwydwaith Gwaith Ieuenctid Byd-eang a chyrsiau hyfforddi (RhCA)	Cyngor Ieuenctid Cymru, Cyfanfyd	2004
• Mae Strategaeth Amrywiaeth Diwylliannol **Cyngor y Celfyddydau**'n cynnwys y datganiad canlynol: "bydd y plant a'r bobl ifanc i gyd yn cael y cyfle i ddathlu amrywiaeth diwylliannol trwy gyfrwng y celfyddydau"	CYC	Yn barhaus
• **Ble rydym yn Byw:** Ein lle yn y byd. Prosiect cymunedol sy'n hyrwyddo cyfranogiad gweithredol (caiff ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn ysgolion cynradd)	Canolfan Amgylcheddol Glyncornel Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	
• Sefydliadau ffydd – mae Cymorth Cristnogol, Cafod, Tearfund yn meithrin cysylltiadau â'r gymuned ffydd ehangach trwy ddigwyddiadau mewn ysgolion – dysgu ar y cyd â chynulleidfa ehangach		
• Mae'r Urdd yn gweithio â grwpiau mewn ysgolion a chymunedau, ac mae gan y mudiad hefyd gysylltiadau byd-eang trwy brosiectau penodol e.e. Croeso Calcutta		

Datganiad 5:		**Blaenoriaeth:**
Bydd pob ysgol yn gallu arddangos **ethos ysgol-gyfan** a fydd yn adlewyrchu gwerthoedd ADFacADC.		**ISEL**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Gwobr Ysgolion Cynaliadwy	Gwasanaethau Addysg CS Penfro a phartneriaid	Dibynnu ar nawdd
• Eco Ysgolion	Cadwch Gymru'n Daclus	Yn barhaus
• Menter Ysgolion Iach	Hybu Iechyd Cymru	Yn barhaus
• Partneriaethau Ysgolion Byd-eang y DFID	DFID Cyngor Prydeinig Cymru	Yn barhaus
• Gwobr Ysgolion Gwyrdd Gwynedd ac Ynys Môn	Cyngor Gwynedd, Cynnal, CS Ynys Môn	Yn barhaus
• Rhaglen Meithrin Dealltwriaeth (Connecting Futures), Y Cyngor Prydeinig	Cyngor Prydeinig Cymru	Yn barhaus

Datganiad 6:		**Blaenoriaeth:**
Ysgolion yn gweithredu'n **gynaliadwy**, o safbwynt yr amrediad o faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac yn deall y rhesymau dros hynny.		**ISEL**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Eco ysgolion	Cadwch Gymru'n Daclus	Yn barhaus
• Prosiect Ynni ac Effeithlonrwydd Ysgolion	Y Sefydliad Ynni	
• Gwobr Ysgolion Cynaliadwy	CS Penfro a phartneriaid	
• Gwobr ysgolion gwyrdd	CS Gwynedd, Cynnal, CS Ynys Môn	
• Gwobr Dylunio Cynaliadwy (Safon Uwch)	CTA a GDTG	

Datganiad 7: Tystiolaeth ymhob ysgol Gynradd ac Uwchradd o **gamau gweithredu a gwaith ymchwil yn cael eu harwain gan fyfyrwyr** ym maes ADFacADC.		**Blaenoriaeth:** **ISEL**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• **Y Cyngor Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang** Cyfarfodydd ar batrwm y Cenhedloedd Unedig, senedd Ieuenctid Ewropeaidd, Pencampwriaethau Siarad Cyhoeddus i Ysgolion	CEWC Cymru	Yn barhaus
• **Gwobr IMPETUS** – gweithredu yn unol â gwerthoedd cyffredin	Y Sefydliad Moeseg Fyd-eang	Yn barhaus
• **Unicef** Prosiect Monitro Addysg Dinasyddiaeth y DU	Unicef	
• Mae'r prosiect **Byd** Weithio'n canolbwyntio'n benodol ar alluogi camau gweithredu a arweinir gan fyfyrwyr (Cymorth Cristnogol, Oxfam, Action Aid, Achub y Plant, Cafod)	Christian Aid, Oxfam, Action Aid, Save the Children, Cafod	Yn barhaus
• **Y Ddraig Ffynci** Senedd i Blant a Phobl Ifanc Cymru www.funkydragon.org	Y Ddraig Ffynci	

Datganiad 8: Bydd pob ysgol yn **gwerthuso** ei darpariaeth ym maes ADFacADC.		**Blaenoriaeth:** **CANOLIG**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• **Fframwaith Gweithredu Cynaliadwyedd ym myd Addysg** Fframwaith generig ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn ysgolion uwchradd. Mae'n cynnwys fframwaith ar gyfer hunanwerthuso	CS Caerfyrddin, Fforwm dros y Dyfodol	Yn barhaus
• **Lloegr:** *Auditing Citizenship A Citizenship and PSHE Curriculum Audit for KS1&2* (un ar wahân ar gyfer CA3a4) Mae'n cynnwys agweddau allweddol ar ADC, cydraddoldeb hil a gogwydd byd-eang ar y cwricwlwm	CAD De Swydd Efrog a phartneriaid	-

Sector: Cymorth

Datganiad 9 Bydd adnoddau addas o ansawdd uchel ar gyfer y **Cwricwlwm a DPP** yn Saesneg ac yn Gymraeg yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo.		**Blaenoriaeth:** **CANOLIG**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Cronfa ddata o adnoddau Cymraeg www.cyfanfyd.org.uk	Cyfanfyd	Yn barhaus
• HMS i athrawon gan CSP (Penfro) ar ADC a DF	Cyngor Sir Penfro	Yn barhaus
• Map Cwricwlwm Dwyieithog ar gyfer ADC a DF yn CA1-4 gan CSP (Penfro)	Megis yr uchod	
• Adnoddau ADF yn cael eu darparu gan Cafod, Cymorth Cristnogol, Oxfam, Achub y Plant ac Action Aid		

Datganiad 10		**Blaenoriaeth:**
Mae pob ysgol yn ymwybodol o, ac yn gallu **cael mynediad at** gymorth sydd ar gael gan amrediad o wahanol ddarparwyr cymorth i'w cynorthwyo i gylfwyno ADFacADC.		**UCHEL**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Gwasanaethau Benthyca Adnoddau	CAD, Canolfannau Ewropeaidd, Sefydliadau HCA, Canolfan Adnoddau Oxfam Cymru	
• Gwefan ADC	Llyw. y Cynulliad	Gwanwyn 04
• Darparu adnoddau a rhoi cymorth i ddigwyddiadau ym maes ADF ar gyfer athrawon yn y GDd (Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir Y Fflint) a Chaerdydd	Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru a CP Cymru	Haf 04
• Amlddiwylliant a'r Gynhadledd Cyfnod Sylfaen	Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru a CP Cymru	Haf 04
• Sioeau Addysg Cenedlaethol	Llyw. y Cynulliad	

Datganiad 11		**Blaenoriaeth:**
Mae pob ysgol yn **mynd ati i geisio cymorth** pan fo hynny'n briodol gan ystod o ddarparwyr allanol i'w cynorthwyo i wella eu gwaith ym maes ADFacADC.		**ISEL**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
Dim wedi cael eu hadnabod hyd yn hyn		

Datganiad 12: Mae ysgolion yn mynd ati i **gysylltu** ag amrediad o wahanol leoedd, yn lleol ac yn fyd-eang, gan ddefnyddio amryw gyfryngau.		**Blaenoriaeth:** **CANOLIG**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd**:
• Mae **Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru**'n darparu cyrsiau ac yn rhoi cymorth i athrawon sy'n dymuno mynd ar drywydd yr agwedd ryngwladol.	CP Cymru ac Ymgynghorwyr Awdurdodau Lleol	Yn barhaus
• Rhaglen grantiau **Partneriaethau Ysgolion Byd-eang y DFID:** ymweliadau o'r ddau du, grantiau ar gyfer prosiectau cwricwlwm byd-eang, rhaglenni cyfnewid i ysgolion uwchradd/myfyrwyr AB (Yn agored i fyfyrwyr AB ar gyrsiau Safon Uwch sy'n cysylltu â sefydliadau tebyg)	DFID, Cyngor Prydeinig Cymru	Yn barhaus Yn barhaus
• Rhaglenni'r **Cyngor Prydeinig** ar gyfer cyswllt rhwng ysgolion Rhaglen yr UE (Socrates Comenius)	Cyngor Prydeinig Cymru	Yn barhaus
• Mae'r **Rhaglen Athrawon Byd-eang** yn hwyluso cysylltiadau ag ysgolion yn Affrica. Mae athrawon yn gweithio am bump wythnos yn Ne Affrica, Uganda a Ghana	Link Community Development	Yn barhaus Yn barhaus
• Gwobr Ysgol Genedlaethol	Cyngor Prydeinig Cymru	
• Prosiect Llyfr Lluniau Ewropeaidd (ysgolion yng Nghonwy)	CS Conwy	
• Mae gan ysgolion seiliedig ar ffydd, drwy asiantaethau (Datblygu Rhyngwladol), gysylltiadau â phartneriaid tramor – mae asiantaethau'n rhedeg amryw gynlluniau gefeillio ac ati		

Sector: Hyfforddiant

Datganiad 13:	**Blaenoriaeth:**
Bydd ADFacADC yn dod yn rhan statudol o bob cwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (**HCA**)	**UCHEL**

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Cwrs Bed yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe – cyflwynir ADC/Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn modiwlau gwyddoniaeth/daearyddiaeth. Anogir myfyrwyr i hyrwyddo ADC yn ystod eu profiaday mewn ysgolion a chânt eu harholi ar eu dealltwriaeth mewn arholiadau terfynol		

Datganiad 14:	**Blaenoriaeth:**
Bydd **athrawon newydd gymhwyso** yn deall ac yn gwerthfawrogi gwerth ADFacADC.	**ISEL**

Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• Rhywfaint o ddarpariaeth ym maes ADC yn CPC, Casnewydd yng nghyswllt DPP		

Datganiad 15		**Blaenoriaeth:**
Bydd cyfran gynyddol o athrawon yn ymgymryd â gweithgareddau ADFacADC fel rhan o'u **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP**).		**CANOLIG**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
• **Cymdeithas Addysg y Gweithwyr** *Safbwyntiau Byd-eang mewn Addysg i Oedolion*. Hyfforddiant, gwybodaeth a deunyddiau addysgu	CAG	Yn barhaus
• **Y Cyngor Prydeinig** Rhaglen yr UE Comenius 2.2 Cyrsiau Hyfforddi, ARION (ymweliadau astudio ar gyfer penaethiaid ysgolion ac ymgynghorwyr)	CP Cymru	Yn barhaus
• Mae **Rhwydwaith Hyfforddiant Rhanbarthol Cymru** yn darparu cyrsiau ac yn rhoi cymorth i athrawon sy'n dymuno mynd ar drywydd yr agwedd ryngwladol.	CP Cymru ac ymgynghorwyr ALI	Yn barhaus
• Mae Msc Addysg yr Amgylchedd **Coleg y Drindod** yn cynnwys modiwl ADC	Coleg y Drindod Caerfyrddin	Yn barhaus
• Mae **Cwrs MA/MEd PC Bangor** yn cynnwys modiwl Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang	PCB	Yn barhaus
• **Athrofa Abertawe** Modiwl Byw'n Gynaliadwy (ar gael o lefel israddedig i lefel gradd uwch)		

Datganiad 16		**Blaenoriaeth:**
Dylai fod gan bob Awdurdod Lleol rywun sy'n **gyfrifol am ADFacADC** a dylai dderbyn hyfforddiant priodol.		**Canolig**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
I'W CADARNHAU		

Datganiad 17		**Blaenoriaeth:**
Bydd hyfforddiant ym maes ADFacADC yn cael ei ddarparu ar gyfer **Arolygwyr** annibynnol ac AALl.		**CANOLIG**
Camau Gweithredu: Presennol	**Gan bwy:**	**Pryd:**
I'W CADARNHAU		

Sector: Asiantaethau

Datganiad 18:	**Blaenoriaeth:**
Bydd corff o dystiolaeth sy'n dangos **arferion da** ym maes ADFacADC yn cael ei gasglu a bydd ar gael i ysgolion a'u partneriaid gael mynediad ato.	**CANOLIG**
Camau Gweithredu: Canolig I'W CADARNHAU	**Gan bwy:** **Pryd:**

Datganiad 19:	**Blaenoriaeth:**
Bydd Llyw. y Cynulliad yn gofyn i Estyn ymgymryd ag **arolwg** o ADFacADC erbyn diwedd y 5 mlynedd ar gyfer gweithredu'r strategaeth GCE.	**UCHEL**
Camau Gweithredu: Presennol I'W CADARNHAU	**Gan bwy:** **Pryd:** 2004

Datganiad 20:	**Blaenoriaeth:**
Dylai pob ysgol ymgymryd ag amrediad o **weithgarwch** ym maes ADFacADC **ym mhob cyfnod allweddol**.	**ISEL**
Camau Gweithredu: Presennol I'W CADARNHAU	**Gan bwy:** **Pryd:**

Cofrestr o Gamau Gweithredu a Mentrau
yng Ngogledd Orllewin Cymru ~

Diweddarwyd 26/04/04

Cam Gweithredu
Bydd adroddiad ar y prosiect HCA gan CAB ar gael cyn bo hir. Bydd yn cynnwys argymhellion. Bydd ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg
Mae gwybodaeth am y prosiect Cymru Jamaica ar wefan CAB yn awr, ac mae CD-Rom yn cael ei ddatblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf
Mae gan awdurdodau Gwynedd ac Ynys Môn eu Prosiect Gwobr Ysgolion Gwyrdd eu hunain. Mae HMS a phecyn adnoddau ar gael i gyd-fynd â'r prosiect, sy'n cynnwys cyfraniad gan Swyddogion Awdurdodau Lleol (Cynllunio, Ailgylchu a.y.b.). Gall ysgolion gael gwobrau Efydd, Arian neu Aur. Mae canllawiau achredu wedi cael eu datblygu, ac mae deunyddiau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a chynhadledd ar Ynys Môn ar gael i athrawon.
Mae Dolen Cymru Lesotho yn paratoi 'Llyfr Mawr' o straeon ar gyfer CA1
Mae Nicaragua Cymru'n datblygu ffilm sy'n canolbwyntio ar brofiadau ieuenctid Nicaragua o slafdai, globaleiddio a dirywiad yr amgylchedd a.y.b. Gobeithir ei lansio ym mis Ionawr 05
Mae angen cymorth i ddod o hyd i ffordd o ddefnyddio cyfoeth o wybodaeth, (lluniau a deunyddiau eraill a.y.b.) yn ymwneud ag ymweliad diweddar ag Uganda. Y farn yw bod potensial ar gyfer CD-Rom
Mae gan Link Community Development adnoddau yn Gymraeg sydd ar gael i ysgolion eu llogi ac sy'n ymwneud â De Affrica. Mae'r fersiwn Saesneg eisoes yn barod i'w defnyddio
Bydd y modiwl MA ym Mangor yn rhedeg eto yn y flwyddyn academaidd 05/06
Mae Urdd Gobaith Cymru'n cydweithio'n agos ag ysgolion: 1. Caiff Neges Ewyllys Da (mae pecyn ar gael) ei darlledu'n fyw ar y radio ledled y byd bob blwyddyn ar Fai 18fed. Caiff y neges flynyddol ei pharatoi gan bobl ifanc o G a D Cymru 2. Ddewis a chefnogi elusennau yn y wlad hon a threfnu pecynnau a gweithdai 3. Comisiynu gwasanaeth bob blwyddyn i ysgolion ei ddefnyddio adeg Sul yr Urdd (y 3ydd Sul ym mis Tachwedd)
Gwerin y Coed Mae pecyn ar gael ar bobl ddigartref Gorllewin y Sahara ac maent yn cydweithio â Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy

Cofrestr o Gamau Gweithredu a Mentrau yn GDd Cymru.

Diweddarwyd 6/5/04

Cam Gweithredu
Mae Cyngor Sir Y Fflint yn cefnogi Cynghrair Masnach Deg Sir Y Fflint sy'n gweithio tuag at greu Gwlad Masnach Deg
Cynhaliwyd sesiynau Hyfforddi Llywodraethwyr ym mis Ionawr, gyda chymorth CAB
Mae Ysgol Gatholig yr Hybarch Edward Morgan yn rhoi cymorth i Gynghrair Masnach Deg Sir Y Fflint – mae Asda nawr yn darparu bananas a fasnachwyd yn deg ar gyfer eu gwerthu yn yr ysgol
Mae Ysgol Gynradd HEM hefyd yn ymgeisio am Wobr Ysgolion Cenedlaethol y Cyngor Prydeinig
Mae Sir Y Fflint wedi paratoi Polisi Cydraddoldeb Hil Enghreifftiol ar gyfer ei Hysgolion a Chynllun Gweithredu a bydd ffurflen Hysbysu ynghylch Digwyddiad Hiliol yn cael ei rhoi ar y gwasanaeth gwybodaeth i ysgolion ym mis Medi – partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru
Yn Wrecsam mae Masnach Deg yn cydweithio ag ysgolion a gwasanaethau arlwyo mewnol i ddarparu te, coffi a bananas a fasnachwyd yn deg
Mae Gŵyl Ddwyflynyddol yn cael ei threfnu i ddathlu amrywiaeth crefyddol, diwylliannol ac ieithyddol yn Sir Wrecsam
Mae nifer o ysgolion wedi trefnu i Gwmni Theatr y Small World Theatre o Abertawe (a ymddangosodd yn y llyfr sy'n gyflwyniad i ADCaDF) ddod i ymdrin â materion yn ymwneud â hil
Ymweliad â Gwlad Groeg gan GW fel rhan o'r rhaglen Arion i weld prosiectau Astudiaethau Amgylcheddol – yn canolbwyntio ar Lygredd, Twristiaeth, Dŵr, Defnydd o Berlysiau a Gweithio ar y tir. 15 o bobl o bob rhan o'r UE yn cymryd rhan. GW yn ysgrifennu'r adroddiad
Gwefan ar DF a DC wedi'i chysylltu â gwefannau eraill, ar gael ar y Rhyngrwyd ac i ysgolion yn Sir Ddinbych
Gwaith ar y Prosiect Hiliaeth ac Amrywiaeth yn digwydd gydag un band mewn Ysgolion Uwchradd yn Sir Ddinbych
Sir Ddinbych i ddechrau cadeirio'r RhHRh am y ddwy flynedd nesaf
Grŵp wedi'i sefydlu yn Sir Ddinbych sy'n cynnwys pawb o CSD sy'n gweithio â rhanbarthau tramor. Mae strategaeth wrthi'n cael ei pharatoi er mwyn cydlynu'r cwbl, a threfnu sut y gall ysgolion lleol gymryd rhan
Ymweliadau o'r ddau du yn digwydd, gyda phennaeth ysgol uwchradd o Nepal yn ymweld â'r ardal, ac mae angen 3 ffynhonnell nawdd ar gyfer y prosiect. Mae'r cyswllt yn awr yn cynnwys mwy nag ysgolion.
Prosiect Comenius yn cynnwys 50 o blant o 10 gwlad. Bydd hwn yn arwain at greu cysylltiadau rhwng trefi a rhanbarthau

Cofrestr o Gamau Gweithredu a Mentrau yn Sir Benfro ~

Diweddarwyd 25/03/04

Action
Gwobr Ysgolion Cynaliadwy
Gwreiddiau ac Adenydd/Cysylltiadau rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin, Iwerddon a Chymru
Prosiect Botswana
Zanzibar
Belize – Global Connections
Dolen Cymru
Cynhadledd Cynghorau Ysgolion Uwchradd
HMS ar ADC a DF
Tir a Môr
Prosiect Varda ar hanes y sipsiwn
Prosiect Arion
Tair Cenedl, Un Byd
Cynllun Pasport i Ddinasyddion Ifainc Byd-eang
Wythnos Un Byd

Diweddarwyd 29/04/04

4 ysgol leol wedi ennill gwobr Fflag Werdd Eco Ysgolion
Ysgol Maenclochog wedi ennill Gwobr Efydd Ysgolion Cynaliadwy (GYC)
Mae'r posibiliadau ar gyfer datblygu Sir Benfro fel Sir Masnach Deg wrthi'n cael eu harchwilio. Mae te a choffi a fasnachwyd yn deg yn awr ar gael yn Neuadd y Sir
'Meddwl Ymchwilgar' – mae cynllun gwaith wedi cael ei ddatblygu yn Sir Benfro ar gyfer Daearyddiaeth a Hanes
Mae GYC yn galluogi trosglwyddo credydau o un cynllun i'r llall rhwng y Fenter Eco Ysgolion a'r Fenter Ysgolion Iach
77% o ysgolion Sir Benfro erbyn hyn yn rhan o'r Fenter Ysgolion Iach
Gardd Affricanaidd yn cael ei phlannu yn Ysgol Mathri gyda rhai eraill i ddilyn
Myfyriwr o Goleg y Drindod yn cysgodi Janie Pridham, Global Connections

Cofrestr o Gamau Gweithredu a Mentrau yn Sir Gaerfyrddin ~

Diweddarwyd 24/03/04

Teitl/Disgrifiad o'r Cam Gweithredu
Dyddiadur Kabo yn Saesneg a Chymraeg. Llyfr Straeon CA1. Gwasg Gomer yn ei gyhoeddi
Llyfr yn dwyn y teitl 'Yr wyf yn perthyn' – canllaw i Ddinasyddiaeth mewn Ysgolion Cynradd ar gyfer blynyddoedd 5 a 6. Cyhoeddiad mewnol gan CSC.
Menter Ysgolion Iach – 3 Cham Gweithredu
Cyswllt Lesotho – gwybodaeth am Add Gref
Addysg ar gyfer Newid Diwylliannol (ADC/DF) Rhaglen HMS yn yr AFG (y thema'n rhan o bopeth y mae'r AFG yn ei wneud)
Cyngor Ysgol ym mhob ysgol
Cynghorau Ieuenctid – mecanwaith yn cael ei sefydlu ar gyfer cyfathrebu â hwy
Mae gan nifer o ysgolion drefniadau cysylltu/cyfnewid yn barod
MSc Addysg yr Amgylchedd yng Ngholeg y Drindod, athrawon lleol yn cymryd rhan, Traethawd hir ar DF/ADC

Diweddarwyd 28/04/04

Cam Gweithredu
48 o ysgolion yn cymryd rhan yn y Fenter Ysgolion Iach, (hyd at 64 ym mis Medi) Nawdd gan CCC yn achosi problem erbyn hyn
Rhwydwaith ABCh Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn trefnu gwibdaith i'r Ganolfan Technoleg Amgen, Mehefin 23ain 04
Prosiect Cymorth yr Ardd Fotaneg Genedlaethol – 14 ysgol (ar ôl HMS) yn awr yn lluosogi hadau yn y dosbarth ar gyfer eu plannu ym mis Mehefin a'u medi ym mis Medi cyn mynd â'r cynnyrch yn ôl i'r ysgol ar gyfer ei baratoi/coginio
Seremoni Wobrwyo ar gyfer Eco Ysgolion i gael ei chynnal yn yr AFG. 8 ysgol yn mynd i dderbyn y wobr Arian, ac i ddilyn ceir gweithdy i ddysgu sut mae cael statws Fflag Werdd
Mae'r AFG yn bwriadu cychwyn Prosiect Bioamrywiaeth
Mae'r AFG yn ystyried datblygiad prosiect Cysylltu, yn seiliedig ar wledydd sy'n cymryd rhan yn eu Rhaglen Gadwraeth, sef De Affrica, Califfornia, Sbaen, Tsieina, a.y.b.
MSC mewn ADC ar gael yng Ngholeg y Drindod
Coleg y Drindod yn cydweithio â Chyngor Sir Caerfyrddin i roi hyfforddiant i Aelodau ym maes DC
Ysgol Gynradd Llangadog yn cymryd rhan yn y fenter Eco Ysgolion, Cyngor yr Ysgol yn ymddiddori mewn materion yn ymwneud â'r amgylchedd yn bennaf

Cynhadledd Eco Ysgolion yn Ysgol Gynradd Llangadog gyda Swyddogion (GB, TB a GT) yn bresennol.
Prosiect cysylltu ar Ffermydd Gwynt ar y cyd â sefydliad o Awstralia. Mae angen mwy o gymorth a chyngor ym maes TGCh
Lluniwyd cytundeb rhwng y Fenter Ysgolion Iach a'r Fenter Eco Ysgolion, i alluogi ysgolion i drosglwyddo'u gwaith/credydau o un cynllun i'r llall, er mwyn osgoi gwneud pethau fwy nag unwaith a.y.b.

Ym mha ffyrdd y bydd hyn o gymorth i chi yn eich gwaith?

A oes gennych awgrymiadau eraill o ran gweithgareddau 'cymorth'?

A ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau gyda'r dull arfaethedig?

A oes gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill?

Os hoffech hyrwyddo'r gwasanaethau y mae eich sefydliad yn eu darparu ar gyfer ysgolion ychwanegwch eich manylion at y cyfeiriadur ar y wefan ganlynol:

www.esd-wales.org.uk

Os hoffech ychwanegu unrhyw 'gamau gweithredu' eraill sy'n ymwneud â datganiadau penodol o fewn y weledigaeth cwblhewch y canlynol:

Datganiad y mae a wnelo'r cam gweithredu ag ef:		
Cam gweithredu: presennol **Cam Gweithredu: newydd/arfaethedig**	**Gan bwy:**	**Pryd**